TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# RTITB Llwythwr Lori wediâ€™i Fowntio ar Gerbyd (HIAB)




**Yn gryno**

Bydd y cwrs gweithredu Llwythwr Lori Wedi’i Fowntio (a elwir yn aml yn llwythwr lori, llwythwr hydrolig wedi’i fowntio neu yn ôl enw y gwneuthurwr "HIAB") yn rhoi'r sgiliau i chi weithredu'r craen yn ddiogel ac yn effeithlon.

Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus byddwch yn cael trwydded achrededig gan yr RTITB, sy'n ddilys am 3 blynedd.

Mae’r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol. Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyfle i bobl gyrchu cyrsiau rhan-amser, am ddim, sy’n cynnig dysgu hyblyg a chyfleus sy’n cyd-fynd â’u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... pobl 19+ oed, yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig, ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

... gyrwyr LGV cymwys sy'n edrych i uwchsgilio, gan eu galluogi i weithredu craeniau wedi'u

mowntio ar gerbydau

... unigolion sydd am ddilyn gyrfa fel gyrrwr arbenigol, cludo llwythi swmp fel deunyddiau adeiladu, peiriannau trwm, pren a mwy

**Cynnwys y cwrs**

Cwblheir y cwrs hwn dros 2 ddiwrnod llawn, gydag uchafswm o 3 hyfforddai.

Trwy gydol y cwrs byddwch yn dysgu sut i gynnal archwiliad cyn-ddefnydd, gweithredu atodiadau, cludo amrywiaeth o lwythi gan ddefnyddio'r peiriant a deall signalau a roddir gan y slingwyr a'r arwyddwyr. Byddwch hefyd yn gallu cofio ac egluro achosion ansefydlogrwydd y lori a'r llwythi.

Bydd gofyn i chi basio prawf theori, ac yna asesiad ymarferol.

**Gofynion Mynediad**

Rhaid bod gennych drwydded nwyddau mawr yn barod (categori C1, C neu CE) er mwyn ymrestru ar y cwrs hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**